

TOUT, THOMAS FREDERICK (1855 - 1929), hanesydd

Enw: Thomas Frederick Tout

Dyddiad geni: 1855

Dyddiad marw: 1929

Rhyw: Gwryw

Galwedigaeth: hanesydd

Maes gweithgaredd: Hanes a Diwylliant

Awdur: Robert Thomas Jenkins

y ceir ymdriniaeth lawn ag ef yn D.N.B., 1922-30 (gan V. H. Galbraith) ac yn *Proceedings of the British Academy*, 1929 (gan Syr Maurice Powicke). Er mai ym Manceinion yw gwnaeth Tout ei waith mwyaf, caiff eto le yn y gyfrol hon am i lawer o'i waith ddelio â Chymru ac mai yng Nghymru y cychwynnodd arno. Bu'n athro hanes yng Ngholeg Dewi Sant o 1881 hyd 1890. Yng ngeiriau Galbraith, 'his years at Lampeter were the making of him' - ac meddai Powicke, 'at Lampeter, Tout found himself.' Dysgodd Gymraeg, ac ymdafodd nid yn unig i waith y coleg ond hefyd i fywyd tref Llanbedr Pont Steffan - pan wnaeth pwyd honno'n fwreisdrif yn 1884, yr oedd Tout yn un o'i haldramoniaid cyntaf, a byddai'n fynych yn llywyddu'r cyngor trefol. Ymddiddorodd hefyd yn hanes Cymru. Sgrifennodd nifer mawr iawn o'ysgrifau cysylltiedig â Chymru yn y D.N.B. - cyn i **Syr John Lloyd** yn 1893 gymryd at y gwath, Tout gan mwyaf a sgrifennai ar Gymry 'r Oesau Canol; ond ni chyfngi ei wybodaeth i'r oesau hynny - ef, e.e., a sgrifennodd yr ysgrif ar **Charles** o'r Bala; noder hefyd ei bapur 'Wales under the Stuarts' yn *Liverpool Welsh Nat. Soc. Trans.*, 1891-2, 24-41. Prif ffrwyth ei astudiaeth o hanes Cymru fu sylweddoli (fel y dangosodd yn eglur yn ei lyfrau) na ellir deall hanes Lloegr yn y 13eg ganrif heb roi ei llawn bwysau i'r 'broblem Gymreig.' Ni sgrifennodd lyfr unswydd ar hanes Cymru, ond gellir nodi yma rai o'i bapurau sydd o ddiddordeb Cymreig : 'The Welsh Shires' (Cymm., ix), 'Wales and the March during the Barons' Wars, 1258-67' (yn *Historical Essays by Members of Owens College*, 1902, 76-136), 'Flintshire, its History and Records' (*Flints. Hist. Soc. Proc.*, i, 1-38), 'The Captivity and Death of Edward of Caernarvon, 1282', yr ymdriniaeth â hen fwreisdrif Cymru yn ei *Mediaeval Town Planning*, 1917, a'r adrannau Cymreig o'i lyfr pwysig *The Place of the Reign of Edward II in English History*, 1914. Yn Llundain y ganwyd Tout, 28 Medi 1855, ac yno y bu farw, 23 Hydref 1929.

Awdur

Yr Athro Emeritus **Robert Thomas Jenkins**, (1881 - 1969)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n **tudalen codi arian** am ragor o wybodaeth.



Jenkins, R. T., (1953). TOUT, THOMAS FREDERICK (1855 - 1929), hanesydd. Y Bywgraffiadur Cymreig. Adferwyd 11 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-TOUT-FRE-1855>

LLGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Nodol i'r
Llyfrgell Cymru
Sponsored by
Welsh Government